Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago
Stryd Iago Isaf,
Pontarddulais, Abertawe, SA4 8JA
www.ysgolbryniago.co.uk
yggbryniago@bryniago.swansea.sch.uk
(01792) 882012
Pennaeth: Miss Nia Jones

16.12.2021

**Trefniadaeth posibl Ionawr 2022**

Annwyl Riant/ Ofalwr,

Fel y gwyddoch, mae sefyllfa bresennol Covid-19 yn fregus iawn. Dydy hi ddim yn glir eto beth fydd effaith Omicron ar y GIG na'r wlad yn ystod y bythefnos nesaf. Oherwydd hyn, mae'r Gweinidog dros Addysg, Mr Jeremy Miles, wedi clustnodi **2 ddiwrnod cynllunio** ar gyfer *holl* ysgolion Cymru. Mae hyn yn golygu y **bydd Ysgol Bryniago ar gau i'r plant ar 04.01.22 a 05.01.22.** (Mae'r diwrnod HMS a gynlluniwyd yn cael ei ohirio tan bod sefyllfa Covid-19 wedi sefydlogi unwaith yn rhagor).

Bydd ysgolion ar draws Cymru yn symud i'r **lefel uchel iawn** o fewn Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau Covid-19 ar gyfer ysgolion.

Ychydig iawn o wybodaeth pellach sydd wedi ei rannu gydag ysgolion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae un newid sicr i drefniadaeth ysgolion yn Ionawr 2022- amseroedd cychwyn a gorffen cyfnodol. Dyma fydd amseroedd cychwyn a gorffen dros dro yr Ysgol ar gyfer Ionawr 2022:

**Amseroedd Cychwyn a Gorffen Cyfnodol Ionawr 2022:**

| Dosbarth/ Class | Amser dechrau'r ysgol/ Start time | Amser gorffen ysgol/ School end time |
|---|---|---|
| **Meithrin** | 08:50 | 11:20 |
| **Derbyn** | 08:55 | 15:00 |
| **Blwyddyn 1** | 08:55 | 15:00 |
| **Blwyddyn 2** | 08:55 | 15:00 |
| **Blwyddyn 3** | 08:50 | 15:10 |
| **Blwyddyn 4** | 08:50 | 15:10 |
| **Blwyddyn 5** | 08:55 | 15:15 |
| **Blwyddyn 6** | 08:55 | 15:15 |

Bydd hi'n **OFYNNOL i rieni/ gofalwyr i wisgo mwgwd** wrth dywys/ gasglu eu plentyn i/o'r Ysgol.

**NI FYDD CLWB BRECWAST PE BAI'R YSGOL YN AIL-AGOR AR 06/07.01.2022.**

Sicrhewch bod holl aelodau'r tŷ yn iach a nad oes neb yn dangos unrhyw un o symptomau Covid-19:

- **Tymheredd uchel**– mae hyn yn golygu bod eich bron a/neu'ch cefn yn teimlo'n boeth i rywun gyffwrdd (does dim rhaid i chi gymryd eich tymheredd)
- **Peswch parhaus newydd**– mae hyn yn golygu eich bod yn peswch llawer yn fwy am dros i awr neu eich bod wedi peswch am gyfnod hir hyd at 3 gwaith mewn 24 awr (neu mae eich peswch arferol yn waeth nag arfer).
- **Colli arogl neu flas** – mae hyn yn golygu eich bod bellach ddim yn medru blasu bwyd neu arolygu pethau. Efallai bydd pethau yn blasu'n wahanol i'r arfer.

Os yn bosibl, peidiwch dod a brodyr neu chwiroydd gyda chi wrth dywys/ gasglu eich plentyn i'r/o'r Ysgol. Bydd hyn yn ein cynorthwyo ni i sicrhau nad oes gormod o bobl ar dir yr Ysgol ar yr un pryd. **Un oedolyn** ddylai ddod a'ch plentyn i'r ysgol.

Bydd canllawiau pellach yn cyrraedd ysgolion ar ddechrau mis Ionawr, 2022. Byddwn yn gweithredu yn unol â'r canllawiau yma ac yn eich hysbysu o unrhyw newidiadau mewn da bryd. Fodd bynnag, gofynnwyd i ysgolion i drefnu'r canlynol ***rhag ofn*** bydd ysgolion ledled Cymru/ dosbarthiadau penodol o fewn ysgol yn dychwelyd i ddysgu cyfunol. *Hoffwn eich argyhoeddu nad ydw i fel pennaeth yn gwybod mwy na chi ar hyn o bryd am sefyllfa ysgolion erbyn Ionawr 2022 ac felly gofynnaf yn garedig i chi i beidio a meddwl mai dyma fydd y sefyllfa ymhen 2-3 wythnos.*

## Trefniadaeth Dysgu Cyfunol YGG Bryniago, 2021-2022:

**Darllenwch yr atodiad perthnasol** ynghylch a threfniadaeth dysgu cyfunol Ysgol Bryniago am 2021-2022

Meithrin a Derbyn/ Nursery and Reception

Blynyddoedd 1 a 2/ Year 1 and 2

Blynyddoedd 3-6/ Year 3-6

## Darpariaeth Gofal Plant Brys:

*Pe bai* ysgolion yn cau yna bydd yr ysgol yn cynnal Darpariaeth Gofal Plant Brys yn yr Ysgol. Fodd bynnag, mae'n bosibl bydd sefyllfa staffio'r Ysgol yn medru effeithio ar ddarpariaeth gofal plant brys yr Ysgol.

Bydd y plant canlynol yn medru mynychu’r ddarpariaeth yma (Meithrin: 08:50-11:20; Derbyn-Blwyddyn 6: 08:50-15:20).

**A). Plant gweithwyr allweddol:**

Bydd plant i weithwyr allweddol sydd heb opsiwn arall dros ofal eu plant yn medru mynychu’r Hwb Gofal Plant Brys. Bydd RHAID cwblhau’r ffurflen archebu o flaen llaw. PEIDIWCH danfon eich plentyn i’r hwb yma onibai bod oleiaf un rhaint yn weithiwr allweddol. PEIDIWCH danfon eich plentyn i’r hwb yma pe bai ganddo/i unrhyw un o symtomau Covid-19. Bydd angen pecyn bwyd ar eich plentyn. Ni gynhelir clwb brecwast/ gofal cyn brecwast.

**B. Plant bregus**

Bydd plant sy’n fregus yn medru mynychu’r Hwb Gofal Plant Brys. Bydd yr ysgol yn cysylltu gyda rhieni’r plant sydd yn gymwys am y gofal yma.

Diolch o waelod calon i’r plant a’r staff am eu holl waith caled y tymor hwn. Diolch yn fawr i chi rieni/ gofalwyr am eich cefnogaeth hefyd.

Cadwch yn ddiogel. Mwynhewch wyliau’r Nadolig. Croeswn ein bysedd na fydd sefyllfa’r wlad yn arwain at y drefniadaeth a nodwyd uchod.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi.

Cofion/ Regards,



Miss Nia Jones

Pennaeth/ Head teacher